# Deddf Trwyddedu 2003 - Nodiadau Canllaw Hysbysiad Cyhoeddus

Pan fyddwch yn gwneud cais am un o'r canlynol:

- trwydded Safle Newydd o dan Adran 17
- datganiad Dros Dro o dan Adran 29
- amrywiad Trwydded Safle o dan Adran 34
- tystysgrif Safle Clwb Newydd o dan Adran 71
- amrywiad Tystysgrif Safle Clwb o dan Adran 84

Bydd angen i'r unigolyn sy'n gwneud y cais hysbysebu'r cais ar y safle am gyfnod o ddim llai na 28 diwrnod yn olynol, gan ddechrau y diwrnod ar ôl y diwrnod y cofnodwyd eich cais gyda'r Awdurdod hwn, y mae'n rhaid ei wneud fel y nodir isod:

- Dim llai na maint A4
- O liw glas golau
- Wedi ei argraffu mewn inc du / wedi ei deipio mewn maint ffont sydd yr un maint neu'n fwy na maint 16

Rhaid i'r hysbysiad gael ei arddangos fel a ganlyn:

- **yn amlwg ar neu yn yr eiddo y mae'r cais yn ymwneud ag ef, ble gellir ei ddarllen yn gyfleus o'r tu allan i'r eiddo, ac os bydd eiddo dros ardal o fwy na 50 metr sgwâr, hysbysiad arall yn yr un ffurf ac yn unol â'r un gofynion bob pum deg metr ar hyd perimedr allanol yr eiddo sy'n ffinio ag unrhyw briffordd**

Mae gofyn i chi hefyd gyhoeddi hysbysiad fel a ganlyn:

- Mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn ardal y safle

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# Nodiadau Canllaw Hysbysiad Cyhoeddus

- Ar un achlysur o leiaf yn ystod y cyfnod o ddeg diwrnod gweithio yn cychwyn ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y cafodd y cais ei gyflwyno i'r Awdurdod hwn.

Mae enghraifft o beth sydd i'w gynnwys yn y rhybudd a'r hysbyseb wedi ei nodi trosodd. **Dim ond enghraifft yw hon, rhaid i chi gydymffurfio â gofynion Rheoliadau 25 a 26 y Ddeddf uchod.** Defnyddiwch y rhifau isod fel arweiniad o'r hyn i'w gynnwys:

1. rhowch enw'r ymgeisydd (fel arfer deiliad y Drwydded Eiddo neu Drwydded Eiddo Clwb)
2. dileu yr un amherthnasol
3. dileu yr un amherthnasol
4. rhowch gyfeiriad post yr eiddo
5. rhowch yr enw yr adnabyddir yr eiddo oddi wrtho
6. rhowch ddisgrifiad byr o'r Caniatâd/amrywiad (sef ar gyfer caniatâd, nodwch yr holl weithgareddau trwyddedadwy ac oriau; ar gyfer amrywiadau, nodwch yr amrywiad arfaethedig i oriau gweithgareddau trwyddedadwy, amodau a chynllun)
7. nodwch ddyddiad sydd ddiwrnod ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno i'r Awdurdod Lleol
8. nodwch ddyddiad sydd 28 ddiwrnod ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno i'r Awdurdod Lleol

# Nodiadau Canllaw Hysbysiad Cyhoeddus

## Deddf Trwyddedu 2003 - Hysbysiad Cyhoeddus

Rwyf i/Rydym ni……………………………………… yn rhoi rhybudd fy mod i/ein bod ni wedi gwneud cais i'r Awdurdod Trwyddedu (Cyngor Sir Ddinbych)

ar gyfer (2) **caniatáu / amrywio** ein

**(3) Trwydded Eiddo / Tystysgrif Eiddo Clwb**

Yn (4), ………………………………………………………………………………..

a elwir yn (5) ………………………………………………………………

Mae'r cais yn cynnwys: - (6)

Gellir archwilio'r cais llawn trwy gysylltu ag Awdurdod Trwyddedu Cyngor Sir Ddinbych:

Gellir anfon sylwadau rhwng (7)…………….......... a (8) …………………………… .

Ni fydd unrhyw sylwadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.

# Nodiadau Canllaw Hysbysiad Cyhoeddus

Gall unrhyw un sy'n dymuno rhoi sylwadau ar y cais hwn wneud hynny drwy ysgrifennu at yr **Uwch Swyddog Trwyddedu, Gwasanaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaeth Cefn Gwlad, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62 Rhuthun LL15 9AZ.**

E-bost: trwyddedu@sirddinbych.gov.uk

Sylwch y caiff eich sylwadau eu cynnwys mewn unrhyw ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r broses ymgeisio.

Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n fyrbwyll mewn, neu mewn cysylltiad â chais ac mae'r ddirwy ar gollfarn ddiannod o'r fath drosedd yn ddiderfyn.